

PWYLLGOR:	IS -BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG
DYDDIAD:	29 Gorffennaf 2022
TEITL:	CAIS AM DRWYDDED EIDDO – CAFFI LLEW GLAS HARLECH
PWRPAS:	ER PENDERFYNIAD
AWDUR:	PENNAETH AMGYLCHEDD

1. CAIS A DDERBYNIWYD

- 1.1 Atodir cais am drwydded eiddo ar gyfer Caffi Llew Glas, 3 Plas y Goits, Stryd Fawr, Harlech, LL46 2YA. Mae'r ymgeisydd yn ceisio am drwydded eiddo ar gyfer caffi/bar cynnwys lluniaeth ysgafn, lle i eistedd tu fewn a thu allan yr eiddo..
- 1.2 Mae swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu yn fodlon fod tystiolaeth ddigonol fod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion y Ddeddf Drwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol ac felly yn ddilys.

Gweler y tabl amgaeedig am fanylion yr oriau arfaethedig:

Oriau Agor / Opening Hours:

Dydd Sul/Sunday	09:00	-	22:30
Dydd Llun/Monday	09:00	-	22:30
Dydd Mawrth/Tuesday	09:00	-	22:30
Dydd Mercher/Wednesday	09:00	-	22:30
Dydd Iau/Thursday	09:00	-	22:30
Dydd Gwener/Friday	09:00	-	22:30
Dydd Sadwrn/Saturday	09:00	-	22:30

Gweithgareddau Trwyddedadwy / Licensable Activities:

Cyflenwi Alcohol/Supply of Alcohol: Ar ac oddi ar yr Eiddo :: Both on and off the Premises

Dydd Sul/Sunday	11:00	-	22:00
Dydd Llun/Monday	11:00	-	22:00
Dydd Mawrth/Tuesday	11:00	-	22:00
Dydd Mercher/Wednesday	11:00	-	22:00
Dydd Iau/Thursday	11:00	-	22:00
Dydd Gwener/Friday	11:00	-	22:00
Dydd Sadwrn/Saturday	11:00	-	22:00

1. Mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu

Mae'r mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd yn cynnwys y canlynol –

- Hyfforddiant staff cynhwysol gwirio oedran, iechyd a diogelwch
- Gweithredu polisi gwirio oedran
- Arwyddion digonol gyfyngiadau oedran
- Gwrthod gweini alcohol i cwsmeriaid sy'n ymddangos yn feddw

Gweler manylion llawn y mesurau a argymhellir yn adran **M** o'r cais

2. YMGYNGHORIAD

Fe ymgynghorwyd ar y cais, ac fe dderbyniwyd ymatebion fel a ganlyn -

YMATEBION	SYLWADAU
Awdurdod Cynllunio Parc Cenedlaethol Eryri	Yn gwrthwynebu / Groes i hawliau Cynllunio
Adran Gwarchod y Cyhoedd	Dim Sylwadau
Gwasanaeth Tan Gogledd Cymru	Dim Sylwadau
Heddlu Gogledd Cymru	Dim gwrthwynebiad
Cyng. Annwen Hughes	Dim Sylwadau

3.1 Awdurdod Cynllunio Parc Cenedlaethol Eryri

Nodwyd y dylid ystyried caniatâd cynllunio cais Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, rhif: NP5-61-T2E DN sydd yn gosod oblygiadau i'r ymgeisydd, a nodir fod y cais yn mynd yn groes i ganiatâd cynllunio presennol sydd ar yr eiddo. Os bydd ymgeisydd darparu cais o'r newydd i Adran Cynllunio Parc Eryri, fe all gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd ddarparu sylwadau ar faterion perthnasol pryd hynny, felly nid oes gwrthwynebiad i'r cais mewn egwyddor.

3.2 Adran Gwarchod y Cyhoedd

Dim sylwadau iw wneud

3.3 Heddlu Gogledd Cymru

Nid oedd tystiolaeth gan yr Heddlu i wrthwynebu'r cais.

3.4 Gwasanaeth Tan Golgedd Cymru

Dim sylwadau iw wneud

3.5 Cyng: Annwen Hughes

Dim Sylwadau iw wneud

4 ARGYMHELLIAD

Argymhellir fod y Pwyllgor hwn yn caniatáu'r cais yn unol â sylwadau Gwarchod y Cyhoedd â gofynion y Ddeddf Trwyddedu 2003.